# Cyflwyniad

Prif bleser a diddanwch llawer o delynorion ifainc Cymru yw defnyddio'u telynau yn gyfrwng cyfeiliant i'r hen grefft draddodiadol o Gerdd Dant. Ond anodd erbyn hyn yw cael gafael ar gopïau o'r hen alawon gosod poblogaidd. Anos fyth yw eu cael mewn ffurf a ddarparwyd yn arbennig ar gyfer y delyn. Pwrpas y casgliad gwreiddiol, a gyhoeddwyd ym 1975, oedd diddymu'r anhawsterau hyn.

Ar gyfer y pumed argraffiad diwygiedig hwn, newidiwyd trefn yr alawon fel bo modd eu canu fel cadwyn ar gyfer y delyn Geltaidd yn ogystal â'r delyn bedal. Yn draddodiadol, fe gyweirir y delyn Geltaidd yn Eb, ac fe welir fod dilyniant yr alawon yn ôl yr hyn a elwir yn 'drefn y cyweiriau'. Nodwyd newidiadau'r pedalau a'r newidiadau i lafnau'r delyn Geltaidd o fewn pob alaw, ond cofiwch osod y delyn i'r cywair priodol ar ddechrau pob alaw. Pwysleisir serch hynny fod y trefniannau yn union fel a gyhoeddwyd yn y fersiwn gwreiddiol, ac a fu mor boblogaidd gyda disgyblion ac athrawon dros y blynyddoedd.

Er symled y trefniadau a gynigir yma, hyderaf y byddant o wir ddefnydd i delynorion Cymru, ai'n ifanc, ai'n brofiadol, ac y bydd iddynt ddiwallu ychydig ar yr angen a grewyd gan brinder yr alawon Cerdd Dant traddodiadol sydd yn para mewn print. Bydded i alawon dwy gyfrol *Telyn y Werin* hybu ein telynorion ifainc i adnabod eu hetifeddiaeth, i ail-afael ynddi, a'i haddurno, er mwyn clod ac anrhydedd traddodiad hynafol Cerdd Dant yng Nghymru.

**Meinir Heulyn**, Ebrill, 2004

# Introduction

Many young Welsh harpists derive their greatest joy from accompanying their friends in the traditional art of Cerdd Dant. Nowadays, however, it is virtually impossible to obtain many of the popular older traditional tunes used for Cerdd Dant, and especially to find them in modern editions. Even more difficult is to find them in arrangements which have been specially made for the harp. Having set out to answer these problems, the original edition of *Telyn y Werin* (1975) was an unqualified success.

Almost thirty years later, this new edition is the fifth. The tunes and the arrangements themselves are unchanged, but whilst re-publishing and re-setting the melodies digitally, it was thought appropriate to take the opportunity of placing them in a different order. Now it is possible to play them as a 'set', and a further advantage is that this can be done on the Celtic harp as well as the concert harp. Traditionally, the celtic harp is tuned in Eb, and it will be noticed that, starting from the basic tuning, the melodies are placed in an order which follows that of 'the circle of keys'. All the necessary pedal and lever changes have been notated as and when they occur, though, of course, the performer must not forget to set the harp in the right key before beginning to play. We would, however, like to emphasise that we have ensured that the arrangements which appear here are reproduced precisely as in the tried, proved and popular original version of 1975.

Although the arrangements offered are by no means difficult, I am hopeful that they will be of real use to Welsh harpists at all levels, and that they may to some extent fill the gap created by those traditional Cerdd Dant tunes which are no longer available. Harpists - recognise your precious heritage, cherish it, burnish it and honour it, and in so doing offer praise and due appreciation to the ancient Welsh art of Cerdd Dant.

**Meinir Heulyn**, April, 2004